Ffon y ci

Parch at eraill / Ymddiriedaeth / Cyfeillgarwch

Unwaith y flwyddyn byddai dyn yn dod i'r ysgol i diwnio'r piano. Roedd y plant yn hoff iawn ohono. Roedden nhw wrth eu bodd yn sgwrsio efo'r dyn tiwnio piano. Efallai bod yna reswm arall eu bod yn hoff o'r dyn. Roedd ganddo gi mawr du. Roedd hwn wrth ei ochr bob amser. I ble bynnag y byddai'r dyn yn mynd byddai'r ci yn mynd efo fo. Y ci mawr du, neu Ffon fel roedd y dyn yn ei alw, oedd yn tywys y dyn i bob man. Roedd y dyn yn ddall.

Gofynnodd un o'r plant iddo un diwrnod, "Pam ydych chi'n galw'ch ci yn Ffon?" "Wel," meddai'r dyn yn bwyllog, "dydw i ddim yn gweld ac mi ydw i'n dibynnu'n llwyr ar y ci. Mae o fel "ffon" i mi. A dyna pam ydw i wedi'i fedyddio fo yn "ffon". Fedra i ddim mynd i unman heb y ci yma."

Roedd y plant yn awyddus i ofyn mwy o gwestiynau i'r dyn.

"Ydi o wedi cael ei hyfforddi?"

"Do, mae Ffon wedi cael ei hyfforddi ers pan oedd o'n gi bach, bach."

"Beth sy'n digwydd i Ffon pan fyddwch chi'n cysgu?" oedd y cwestiwn nesaf.

"Mi fydd o'n cysgu yn ei fasged ar waelod y gwely. Yn y bore bydd o'n fy helpu i fynd i'r ystafell ymolchi."

"Ydi o'n cael mynd am dro ar ei ben ei hun?" gofynnodd Lowri.

"Ydi, mae o'n cael mynd am dro i waelod yr ardd bob dydd. Mi fydda i'n gadael iddo fynd am oriau. Ond pan fydda i'n gweiddi "Ffon" bydd yn siŵr o ddod ar ei union i'r tŷ. Mae o'n gi ffyddlon iawn," meddai'r dyn.

"Wel, gwrandewch rwan, mae'n well i mi fynd ymlaen efo'r gwaith o diwnio'r piano neu fydd hi ddim yn barod i chi ar gyfer Eisteddfod yr Urdd," meddai'r dyn ac aeth ati i drin y piano a Ffon yn gorwedd wrth ei ymyl.

Roedd y plant wedi cael modd i fyw yn sgwrsio efo Mr Parry a

Ffon. Ar ôl mynd yn ôl i'r ystafell ddosbarth fe fuo nhw'n dweud wrth ei hathrawes eu bod nhw wedi bod yn sgwrsio efo Mr Parry.
"Gawn ni ofyn i Mr Parry ddod i'r dosbarth i sgwrsio efo ni?" gofynnodd un o'r plant.
"Beth am i ni drefnu ar gyfer y tro nesaf er mwyn i Mr Parry gael paratoi ar ein cyfer," meddai'r athrawes. Yn y cyfamser beth am i ni wneud ychydig o waith ar berthynas pobl ag anifeiliaid.
"Rwy'n siŵr y byddai dad yn dod i'r ysgol i sôn am ei berthynas efo Meg," meddai Megan.
"Pwy ydi Meg felly?" gofynnodd yr athrawes.
"Ci defaid," meddai Megan.
"Wel dyna syniad da," meddai'r athrawes. "Mi fydd yr ysgol yma'n gwn i gyd."

Mi ryda ni eisiau diolch i ti O Dduw am bawb sy'n barod i helpu'r deillion. Amen.

- Fedrwch chi feddwl sut oedd Mr Parry yn gallu tiwnio'r piano ag yntau'n ddall?
- Beth fydda'n digwydd i Mr Parry petai rhywbeth yn digwydd i Ffon y ci?
- Fedrwch chi feddwl am bobl eraill sy'n dibynnu ar gŵn?
- Ydych chi'n credu fod 'Ffon' yn enw da ar y ci?